



*Llais yr Eglwysi Rhyddion ar  
Addysg*

# *Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

***Crynodeb Gweithredol*****3*****Cyflwyniad*****4**

Natur, pwrpas a rôl llais anghydfurfiol Cristnogol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg gan adlewyrchu trafodaethau Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion

***1. Cyd-destun hanesyddol:*****5****YN RHYDD ODDI WRTH y Sefydliad, yn gweithio yn ôl argyhoeddiadau anghydfurfiol ...**

Y berthynas hanesyddol rhwng yr eglwysi ac addysg;  
Yr etifeddiaeth anghydfurfiol;  
Yr Eglwysi Rhyddion yn y gymuned.

***2. Athroniaeth:*****6****YN RHYDD i gynnig persbectifau Cristnogol ...**

Gwerthoedd allweddol Cristnogol;  
Gweledigaeth yr Eglwysi Rhyddion wedi'i wreiddio yn y Beibl;  
Ysgogiad yr Eglwysi Rhyddion;  
Defnyddio iaith Gristnogol.

***3. Pwrpas:*****7****YN RHYDD i hyrwyddo lles pawb ...**

Tystiolaeth gynhwysol yr Eglwysi Rhyddion;  
Ymrwymiad i gydraddoldeb a chyfiawnder;  
Addysg gyfannol;  
Addysg Grefyddol a'r Eglwysi Rhyddion;  
Gwerthfawrogi'r hyn sydd yn werth chweil .

***4. Gweithrediad*****9****YN RHYDD i'r dyfodol .....**

Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion;  
Gweithio gyda'r eglwysi a chyda'r sustem addysg;  
Cefnogi Cristnogion sy o fewn addysg.

*Paratowyd y ddogfen hon yn wreiddiol gan Julie Grove, John Keast, Sarah Lane Cawte a Philip Wagstaff ar gyfer Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion. Fe'i mabwysiadwyd gan y Pwyllgor hwnnw yn Nhachwedd 2010 a'i gylchredeg i'r enwadau sy'n aelodau. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddogfen gan Adran Eglwys a Chymdeithas Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng nghyfarfod Ebrill 2011 a*

*phenderfynwyd cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg; ei gosod yn y ddwy iaith ar y wefan ac i yrru copïau i'r Henaduriaethau iddynt drafod oblygiadau'r ddogfen.*

## *Llais yr Eglwys Rhyddion ar Addysg*

### **CRYNODEB GWEITHREDOL**

Y mae yna rôl i lais yr Eglwys Rydd o fewn addysg, yn gyffredinol yn ogystal â mewn perthynas ag addysg grefyddol a datblygiad ysbrydol. Mae persbectif yr Eglwys Rydd yn rhydd oddi wrth y sefydliad Cristnogol ac wedi'i ffurfio gan amgylchiadau'r gorffennol a'r presennol. Nid yw wedi'i gyfyngu gan y diddordeb mewn ysgolion enwadol, ond mae'n ymrwymedig i'r hyn sydd orau i bawb mewn addysg. Mae'r Eglwys Rhyddion wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol. Er gwaethaf gwahaniaethau diwinyddol, maent yn unedig yn eu hargyhoeddiadau anghydfurfiol a phryder am addysg y person cyfan.

Rhaid i lais yr Eglwys Rhyddion fod yn llais Cristnogol, wedi'i gyfarwyddo gan ei gyd-destun anghydfurfiol. Bydd yn siarad iaith Teyrnas Dduw; bydd yn sôn am gyfiawnder, gonestrwydd, cydraddoldeb, gwirionedd, rhyddid a heddwch i bawb. Ffynhonnell y gwerthoedd hyn yw'r Beibl, lle mae'r eglwys wedi'u gwreiddio a'u trwytho. Mae gwrthdaro ymddangosiadol rhwng awdurdod Beiblaidd a gwybodaeth wyddonol gynyddol, yn herio rhagdybiaethau traddodiadol a phortreadau negyddol o Gristnogaeth, y naill fel y llall. Rhaid i lais yr Eglwys Rydd wrthsefyll seciwlaeriaeth ac annog y defnydd o iaith Gristnogol mewn addysg, yn enwedig geirfa obeithiol.

Mae'r Eglwys Rhyddion yn siarad o bersbectif cynhwysol, y tu hwnt i nodweddion unrhyw draddodiad unigol, eto'n cydnabod ymrwymiad rhai enwadau i'w hysgolion ffydd. Gyda'r gred fod pob unigolyn yn bwysig i Dduw, mae'n rhaid i lais Eglwys Rydd, a ddistawyd yn y gorffennol gan anffafiaeth ac anghydraddoldeb, siarad dros y rhai hynny sydd dan anfantais oherwydd gwahaniaeth. Mae llais Eglwys Rydd yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol person ifanc ym mhob agwedd a phob cyfnod o addysg. Ymhellach, mae'n cydnabod potensial addysg Gristnogol ym meithriniaid yr unigolyn hyd at fod yn oedolyn llawn ac yn cefnogi arferiad da. Mae stori Cristnogaeth yn anghyflawn heb gydnabyddiaeth o'i amrywiaeth, gan gynnwys cyfraniad anghydfurfwr yn ei ddatblygiad. Mae angen i addysg fod yn ehangach na'r hyn y gellir ei fesur: dylai alluogi unigolion i fyw bywyd yn ei holl gyflawnder.

Caiff llais yr Eglwys Rydd ar addysg fynegiant drwy gyfrwng Pwyllgor Addysg yr Eglwys Rhyddion (PAER), ac mae gan ei holl aelodau brofiad a diddordeb gweithredol mewn addysg. Mae'r PAER yn ymrwymedig i gynnal perthynas â ffydd grefyddol, o ba gred bynnag, a hawl yr unigolyn i gynnal y ffydd honno, wrth gydnabod ei wreiddiedig rwydd ei hun yn Nheyrnas Dduw. Bydd yn defnyddio'i lais i drafod yn feirniadol werthoedd y presennol; i sensiteiddio'r enwadau; i lobïo a hysbysu'r llywodraeth; ac i gefnogi unigolion sy'n ymwneud ag addysg, pa un ai'n broffesiynol neu'n wirfoddolwyr. Gwêl ei bwrpas fel ymgais i geisio egluro hynodrwydd llais anghydfurfiaeth Gristnogol mewn addysg ac i fynegi ei neges gydag argyhoeddiad a hyder.

## CYFLWYNIAD

Mae Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion yn ceisio gweithio ar ran yr Eglwysi Rhyddion ar y cyd, gan gynnig llais anghydfurfiol Cristnogol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg.

Nod y papur hwn yw cefnogi holl wragedd a gwŷr yr Eglwys Rydd sy'n gweithio o fewn addysg fel rhan o'u galwedigaeth Gristnogol, pa un ai'n llawn amser neu'n rhan amser, â thâl neu'n wirfoddol; gan gynnwys athrawon, llywodraethwyr ysgolion, aelodau o'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r rheiny sy'n gweithio mewn unrhyw gymhwyster arall. Ei bwrpas yw mynegi safbwynt yr Eglwys Rydd yn ffurfiad parhaus a gweithrediad y system addysg wladol, a hynny er mwyn cynorthwyo gwŷr a gwragedd i ymarfer eu galwedigaeth Gristnogol yn fwy effeithiol.

Mae'r papur yn adlewyrchu trafodaethau Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion (PAER) ar natur, pwrpas a swyddogaeth y llais anghydfurfiol Cristnogol ar faterion yn ymwneud ag addysg. Ysgogwyd y myfyrdodau gan gyflwyniadau o blith nifer o bersbectifau sefydledig yr Eglwysi Rhyddion.

Yn ei strwythur, mae'n archwilio arwyddocâd gallu gweithio mewn cyd-destun sy'n rhydd oddi wrth sefydliad hanesyddol yr Eglwys Anglicanaidd, a sut y gall fod yn rhydd i gyflwyno persbectifau Cristnogol a pham fod y cyd-destun a'r athroniaeth hwnnw yn galluogi'r PAER i fod yn llais sy'n rhydd er lles pawb mewn addysg.

Nid yw'r papur hwn wedi'u fwriadu i fod yn ddarn terfynol o waith. Papur trafod ydyw, ar gyfer yr PAER ac i eraill sydd â diddordeb. Mae pob adran yn diweddu â rhestr o faterion y mae'r pwyllgor yn parhau i'w hystyried ac yn eu cymeradwyo i'r enwadau, eglwysi unigol ac aelodau Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yr Eglwysi Rhyddion i'w hystyried. Y gobaith yw y bydd yn cynyddu'r diddordeb ac yn ysgogi trafodaeth.

# 1. CYD-DESTUN HANESYDDOL

## YN RHYDD ODDI WRTH y Sefydliad, yn gweithio yn ôl argyhoeddiadau anghydfurfiol ...

Mae'r cyfleoedd ar gyfer mynegi persbectif yr Eglwys Rydd ar addysg wedi eu ffurfio yn gymaint gan ganrifoedd o ddatblygiad datguddiedig ag ydynt gan amgylchiadau presennol.

Mae Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru yn ymgymryd â chenhadaeth i gymdeithas yn gyfan gyda phlwyfi ac ysgolion sydd, mewn enw o leiaf, yn cynnwys pob preswlydd. Buddsoddir adnoddau enfawr gan yr Eglwys Babyddol mewn ysgolion fel rhan o'i chenhadaeth ac eglwysoleg, a chan hynny greu perthynas symbiotig rhwng ysgol a phlwyf. Er i lawer o'r enwadau anghydfurfiol sefydlu eu hysgolion eu hunain yn rhan olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dim ond yr Eglwys Fethodistaidd sydd wedi parhau i chwarae rhan sylweddol mewn darparu ysgolion. Mae'r Eglwysi Rhyddion â gogwydd cenhadol o fath gwahanol, gyda ffocws ehangach ar y gymdeithas gyfan ac ar bob ysgol. Yn draddodiadol felly, bu pwyslais o fewn yr enwadau anghydfurfiol ar gymeradwyo addysg y wladwriaeth. Caniatâ'r ymrwymiad hwn i'r ffydd Gristnogol ar y naill law i hawlio ei le yn y cylch addysg ehangaf ac ar y llaw arall i Gristnogion fel athrawon i allu gweithio mewn ysgolion nad oes iddynt gymeriad crefyddol.

Daw Eglwysi Rhyddion o draddodiad hir o anghydfurfiaeth. Dros y canrifoedd, amddiffynnwyd rhyddid cydwybod a rhyddid barn yn egniol gan yr Eglwysi Rhyddion. Fodd bynnag, ni ddechreuodd yr anghydfurfwr Cristnogol gyda'r egwyddor o ryddid crefyddol cyffredinol; eu nod oedd cael rhyddid cydwybod a chredo iddynt hwy eu hunain. Bu i anghydfurfwr yn y gorffennol ddiodef yr un mathau o anffafiaeth ac anghydraddoldeb ag a ddiodefir gan grwpiau lleiafrifol heddiw. Yn unedig fel ag y maent drwy eu hetifeddiaeth anghydfurfiol gyffredin, mae'r Eglwysi Rhyddion, er hynny, yn wahanol i'w gilydd ac yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau diwinyddol, ethos a blaenoriaethau cenhadaeth.

Er eu gwahaniaethau diwinyddol, mae'r eglwysi hyn wedi eu sefydlu'n lleol a chanddynt brofiad o bob math o gymuned; ac maent yn rhydd i ymaddasu fel y newidia cymunedau. Mae bod â gwreiddiau yn y cymunedau a'r teimlad o ryddid o fewn yr Eglwysi Rhyddion yn rhoddion i'w cynnig a'u harchwilio mewn addysg yn ogystal ag ar y ddaear ym mhob cymuned. Ceir enghreifftiau o'r gorffennol yn cynnwys y mudiad Ysgolion Sul a'r Ysgolion Sabothau cynnar, a fu'n fodd i addysgu'r person cyfan a rhoi sgiliau i bobl megis darllen, ysgrifennu a mathemateg, yn ogystal â phersbectif o ffydd. Yn ei hanfod, rhoddasant y sgiliau i bobl ar gyfer dysgu a byw, a ysgogwyd gan eu ffydd.

### Mae Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion yn parhau i ystyried:

- pa mor neilltuol yw lleisiau'r Eglwysi Rhyddion a sut y maent yn gwahaniaethu oddi wrth leisiau Cristnogion eraill a phobl o ffydd a chredoau eraill
- sut y gellir pwysleisio'r hynodrwydd hwn fel nodwedd bositif o hunaniaeth Eglwys Rydd;
- sut y gall Cristnogion anghydfurfiol fynegi'n well yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin;
- pwy sydd ar y cyrion heddiw a tybed a all PAER siarad ar eu rhan a chyda hwy yn fwy effeithiol;
- tybed a oes ddoethineb o'r Beibl neu'r ddysgeidiaeth Gristnogol a all gynorthwyo i gryfhau llais yr Eglwysi Rhyddion;
- sut y gall presenoldeb mewn cymunedau lleol gael ei ddefnyddio i gryfhau ymrwymiad gweithredol Eglwysi Rhyddion mewn addysg, gyda'r pwyslais presennol ar ymlyniad mewn ysgolion sy'n perthyn i draddodiadau ffydd neilltuol.

## 2. ATHRONIAETH

### YN RHYDD i gynnig persbectifau Cristnogol ...

Trwy Grist, gelwir Cristnogion i fod yn blant i Dduw. Gelwir ar bob eglwys, o unrhyw enwad, i fod yn dyst i fywyd yn Nheyrnas Dduw; i sefyll dros gyfiawnder, gonestrwydd, cydraddoldeb, dysg, gwirionedd, symrlwydd, rhyddid a heddwch i bawb. Ar y cyd â Christnogion eraill, y gwerthoedd allweddol hyn yw hanfod yr hyn a gerir gan gredinwyr anghydfurfiol. Deillia'r gwerthoedd hyn o'r datguddiad Beiblaidd ynglŷn â natur Duw a phwrpas Duw ar gyfer y bodau dynol, a gadarnhawyd fel ffynhonnell awdurdodol gan yr Eglwysi Rhyddion.

Mae gwaith yr Eglwysi Rhyddion o ffydd ac ymrwymiad yn y gymuned wedi ei wreiddio yn y Beibl erioed, gyda gweledigaeth Duw o greadigrwydd dyn ar gyfer y byd yn ganolbwynt iddo; rhy hyn her i'r eglwysi i archwilio'r byd gyda llygaid ffydd ac i rannu gweledigaeth o obaith a phosibilrwydd ar gyfer pawb. Bydd llais yr Eglwysi Rhyddion yn edrych i'r Beibl er mwyn rhoi gwreiddiau i'w ymlyniad yn y broses addysg, gan chwilio'n barhaus i ddarganfod y cyd-destun yr ysgrifennwyd y geiriau ynddo a chanfod perthnasedd ynddynt ar gyfer y gymuned ehangach, yn ogystal â phobl o ffydd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Tyfodd y ddelwedd boblyddol bod yr eglwys yn adweithiol ac afresymol gyda'r gwrthdrawiadau mynych rhwng awdurdod beiblaidd ac ymddangosiad methodoleg wyddonol o fewn persbectifau eraill cymunedol. Tra bo adegau lle y gellir anelu'r cyhuddiad hwn yn deg, ystyrir Cristnogion yn llawer rhy aml fel pobl sy'n gwrthwynebu popeth, ond eto fe geir o fewn corff Crist synnwyr dyfnach o weledigaeth sy'n chwilio am 'ffordd ragorach fyth' (1 Corinthiaid 12: 31). Er bod hyn yn golygu y bydd, ar adegau, yr angen i anghytuno neu i herio doethineb ymddangosiadol a rhagdybiaethau traddodiadol, y mae'r mwyafrif o eglwysi yn ceisio bod yn 'halen a goleuni' mewn ffyrdd positif iawn. Fe ddylai neges arbennig yr Eglwysi Rhyddion fod yn un sy'n adlewyrchu neges positif yr Efengyl.

Felly, ble mae'r safbwynt ffydd heddiw? Ysgogir Cristnogion gan ffydd, gweddi, cariad ac addoliad pobl Dduw. Mae ganddynt fewnwelediadau i nodweddion a gobeithion dynol a chyfle i edrych ar neges yr Efengyl o gyfiawnder a thegwch, heddwch a bendith. Mae cyfraniad i'w wneud wrth rannu rhyw gymaint o stori Duw o fewn traethiad y gymuned ehangach a rennir gan bawb. Y stori honno am bobl a'u profiad, o sialens a dewis, o gyfle a gras, yw symbyliad yr Eglwysi Rhyddion. Ond i ddeall y stori honno am ffydd a gweithred, stori'r Beibl, mae'n rhaid ei seilio ar yr ysgolheictod gorau a'i rhannu o fewn gweinidogaeth gweddi pobl Dduw.

Rhaid i lais Eglwys Rydd ganfod a defnyddio iaith Gristnogol, yn enwedig iaith gobaith. Nid yw cylchrediad iaith arbennig o anghenraid yn gwahanu; nid yw yn annibynnol ar ei gilydd. Defnyddir iaith cydraddoldeb, gwerthfawrogi unigolion, grymuso, mwynhad a hunaniaeth yn gyffredin mewn addysg. Ceir pwyslais ar hyrwyddo hawliau dynol i bawb a diddymu anffafiaeth, gan gynnwys anffafiaeth grefyddol. Mae hyn i gyd yn iaith y mae Cristnogion yr Eglwys Rydd yn uniaethu â hi.

Rhaid i lais yr Eglwysi Rhyddion ar addysg felly fod yn lais Cristnogol, yn hyddysg yn y cyd-destun anghydfurfiol. Rhaid iddo wynebu'r portreadau negyddol o Gristnogaeth a gwrthsefyll y cynnydd ar hyn o bryd mewn seciwlariaeth a seciwlareiddio cymdeithas, gan herio a gwrthwynebu eu heffeithiau ar addysg. Rhaid gwneud hyn oll mewn partneriaeth gyda rhieni a gofalfwyr, gydag athrawon a llywodraethwyr, gyda chymunedau ac eglwysi. Mae yna her a chyfle wrth weithio gyda'r rhai hynny sydd y tu mewn a'r tu allan i'r eglwys sy'n ceisio dod â'r addysg orau i bawb.

#### **Mae Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion yn parhau i ystyried:**

- sut y gall sicrhau nad iaith seciwlariaeth yw iaith gyffredin addysg, ond sy'n iaith y gall Cristnogion yr Eglwys Rydd uniaethu â hi oherwydd fe rydd ystyr ac y mae'n atseinio gyda'r ffydd Gristnogol;
- sut y gall annog y defnydd mwy creadigol o iaith mewn addysg, gan adlewyrchu'r gred fod pob person wedi ei greu ar ddelw Duw;
- sut y gellir ailfeddiannu iaith ffydd mewn ffordd sy'n ei gwneud yn fwy credadwy;
- ei swyddogaeth yn sensiteiddio'r Eglwysi Rhyddion i wneud mwy i gefnogi eu haelodau sy'n gysylltiedig ag addysg;
- ei swyddogaeth posibl yn cefnogi pob Cristion mewn addysg, naill ai'n broffesiynol neu'n wirfoddolwyr, megis llywodraethwyr ysgol, sy'n cael eu herio i ehangu eu bywyd ysbrydol ond yn teimlo bod diffyg cefnogaeth gan eu heglwys leol.





### 3. PWRPAS

#### YN RHYDD i hyrwyddo lles pawb ...

Mae addysg i bawb. Mae pob unigolyn yn bwysig i Dduw ac mae Cristnogion yn credu bod rhywfaint o Dduw ym mhob person. Mae hyn yn mynnu cydnabyddiaeth o gydraddoldeb a chyfiawnder fel gwerthoedd allweddol i addysg. Nid yw cydraddoldeb, o anghenraid, yn golygu trin pawb yr un fath. Mae gadael i bob unigolyn ddatblygu ei lawn botensial, yn anochel, yn golygu bod rhai angen mwy o adnoddau nag eraill. Nid yw'r farn hon yn rhagorffaint yr Eglwysi Rhyddion, mewn modd yn y byd; rhennir hi gan Gristnogion eraill, pobl o ffydd eraill, dyneiddwyr a'r rheiny nad ydynt yn credu.

Yn rhydd fel ag yr ydynt, ran amlaf, oddi wrth ymrwymiad i ysgolion enwadol, mae'r Eglwysi Rhyddion yn gallu cynnig tystiolaeth gynhwysol, sy'n ddilys y tu hwnt i nodweddion unrhyw draddodiad unigol. Mae'r Eglwysi Rhyddion yn siarad o'r persbectif cynhwysol hwnnw, yn cydnabod sut y mae ymrwymiad dwfn rhai eglwysi i ysgolion ffydd yn darparu adnodd enfawr y tu hwnt i'w cymunedau eu hunain. Nid yw cydnabod y rôl a chwaraeir gan yr ysgolion hyn yn y tirlun addysgiadol presennol yn tanseilio'r ymrwymiad i gynhwysiad, gan fod rhyddid cydwybod a rhyddid crefydd, a gyflëir ym modolaeth gynyddol ystod eang o ysgolion ffydd, yn gynhenid i bersbectif Eglwys Rydd.

O ystyried eu profiad blaenorol o wahaniaethu ac anghydraddoldeb, mae'r Eglwysi Rhyddion mewn safle da i ddeall a chefnogi'r rheiny sy'n wahanol, yn enwedig y rhai hynny sydd dan anfantais oherwydd eu bod yn wahanol. Y dasg i'r Eglwysi Rhyddion yw bod yn llais dros gynhwysiad, gan ymgymryd â materion o gyfiawnder, o sefyll dros yr hyn sy'n iawn mewn sefyllfaoedd anghyfiawn. Y gred sylfaenol yw un o gydraddoldeb a chyfiawnder i bawb, gan gynnwys y rhai hynny sy'n credu'n wahanol, er mwyn y ddarpariaeth orau posibl i bawb o fewn y system addysg gyhoeddus.

Prif nod addysg er 1944 yw hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion a chymdeithas. Wrth ailadrodd y nod hwn, atgyfnerthodd Deddf Diwygio Addysg 1988 bwysigrwydd datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, ond er na fu newid i'r ddeddfwriaeth, mae blaengaredd yr agweddau hyn o ddatblygiad wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfyngu ar ymadroddion megis 'addysgu a dysgu' yn gyffredin; byddai 'addysgu a derbyn' yn fwy addas. Mae'r Eglwysi Rhyddion yn pwysleisio pwysigrwydd ethos a'r dimensiynau ysbrydol a moesol ym mhob agwedd o addysg ac ar gyfer pob person ifanc.

Dylai llais Cristnogol yr Eglwys Rydd mewn addysg gynnwys y wireb 'Mae'r hyn sy'n werthfawr yn werth ei fesur, yn hytrach na rhoi gwerth yn unig ar yr hyn y gellir ei fesur'. Mae addysg ynglŷn â'r person cyfan, nid llythrennedd a rhifedd yn unig, er eu pwysigrwydd. Dylid datblygu pob dawn a photensial mewn plentyn. Dywedodd Iesu ei fod wedi dod fel y gall pobl fyw bywyd yn ei holl gyflawnder (Ioan 10: 10). Mae llawer sydd o werth yn herio unrhyw fath o fesuriad; mae hyn yn cynnwys datblygiad ysbrydol, eto heb ddatblygiad o'r fath mae'r hyn y gellir ei fesur yn colli llawer o'i bwysigrwydd.

Ar ôl rhieni, athrawon yw'r adnodd gorau sydd ar gael i ddatblygiad plant fel unigolion cyflawn. Y mae'r Eglwysi Rhyddion wedi'u cynrychioli'n dda o fewn y proffesiwn a hefyd mae yna aelodau sy'n gweithredu ar CYSAG ac fel llywodraethwyr, oll yn y system ac yn cyfrannu iddo; mae eu gwaith yn rhan o alwad yr eglwys ac mae llawer y gallant ei ddysgu oddi wrth ei gilydd. Maent yn haeddu cefnogaeth eu heglwysi lleol a'u henwadau yn genedlaethol, a ddylai fod yn eu galluogi i fyw eu gwerthoedd Cristnogol, yn eu hamlygu yn eu hagweddau a'u cysylltiadau. Mae nifer o athrawon yn ymbalfalu yn wyneb termau megis 'ysbrydol' a 'datblygiad ysbrydol'. Mae yna angen i gynnig cefnogaeth iddynt ac i sicrhau na esgeulusir y dimensiynau hyn, yn enwedig mewn adolygiadau o gwricwlwm ysgolion.

Mae addysg grefyddol dda yn cynorthwyo i feithrin yr unigolyn i fod yn berson llawn, hyrwyddo parch ac empathi, y gallu i holi, i ddechmygu, i gael hunanwerth ac i werthfawrogi eraill, ac i gael gobaith. Ar hyd y ffordd, gwna dipyn i bryfocio cwestiynau ynglŷn ag ystyr bywyd, y syniad am Dduw, materion 'iawn' ac 'anghywir' a natur realaeth. Mae'r stori Gristnogol, ynghyd â hanesion gwerthfawr ffydd eraill, yn cynorthwyo i fod yn darddiant y tyfiant hwn. Eto, mae Cristnogaeth yn amrywiol iawn, a heb gyfeirio at yr Eglwysi Rhyddion, nid yw ei stori yn gyflawn.

Ceir budd mawr i bobl ifanc o ddysgu am rôl Eglwysi Rhyddion yn natblygiad Cristnogaeth a chymdeithas, yn ogystal ag ehangu eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o draddodiadau Cristnogol. Yn hyn o beth, nid yw'r adnoddau dysgu, yn gyffredinol, gystal ag y gallent fod: ychydig iawn o gyfeiriad a geir at anghydfurfiaeth mewn llyfrau gosod a gyhoeddwyd.

Mae pobl yr Eglwysi Rhyddion wedi'u hysgogi i gymryd diddordeb oherwydd eu ffydd. Mae eraill o fewn y broses addysg wedi'u hysgogi mewn ffyrdd gwahanol. Maent oll, mewn partneriaeth, yn ceisio darparu'r cyfleoedd addysgol gorau, mwyaf creadigol, heriol a realistig i bob unigolyn, eu teuluoedd a'u cymunedau.

**Mae Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion yn parhau i ystyried:**

- ei ddealltwriaeth o bwrpas addysg, yng nghyd-destun traddodiad a diwinyddiaeth Gristnogol, ac ym mha ffyrdd y mae hyn yn ategu neu'n herio dealltwriaethau seciwlar;
- yr hyn sy'n cadw cymunedau ynghyd a sut y mae pobl yn byw gyda gwahaniaeth;
- pa fath o gymunedau sy'n cael eu datblygu mewn addysg;
- yr hyn sy'n lles y cyhoedd a sut y gall cymunedau ffydd gysylltu ag ef;
- sut y try'r ysgol yn lle y mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi, a lle na chaiff unrhyw grŵp ei ffafrio;
- sut y gall pobl ifanc fod yn sicr o gyfleoedd i ddysgu am ac o'r traddodiadau anghydfurfiol.

## 4. GWEITHREDIAD

### YN RHYDD I'R DYFODOL ...

Caiff llais yr Eglwysi Rhyddion ar addysg ei fynegi drwy Bwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion (PAER). Enwebir cynrychiolwyr i'r pwyllgor gan eglwysi sy'n aelodau o Grŵp yr Eglwysi Rhyddion. Mae gan bob aelod rôl weithredol mewn addysg ac yn tynnu ar eu profiad o weithio mewn ystod eang o leoliadau addysgiadol.

Mae paratoi'r papur hwn wedi cynnig cyfle am fyfyrddod cyfrannol, sydd wedi arwain aelodau'r PAER i gydnabod fod rhesymwaith y pwyllgor wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd y Deyrnas sy'n cael mynegiant mewn ymrwymiad cyfunol i lawnder bywyd, cyfleoedd cyfartal a dysgu gydol oes i bawb. Mae'r PAER yn amddiffyn parch tuag at ffydd grefyddol, o ba gredo bynnag, a chredoau anghrefyddol a hawl yr unigolyn i gadw'r ffydd hwnnw neu'r gred honno, yn enwedig y rheiny sydd â'u ffydd wedi'u hynysu. Heb danseilio ffydd pobl eraill, bydd yn ceisio adfer iaith y ffydd Gristnogol yn yr hyn a ddywed gan roi ffocws positif ar y label 'anghydffurfiaeth'.

Bydd y PAER yn defnyddio'i lais i annog, lloïo, hysbysu a chefnogi, pa un ai'n cyfeirio ei egni tuag at yr enwadau, y Llywodraeth neu unigolion sydd ynghlwm ag addysg. Mae cynrychioli enwadau y tu hwnt i'r Sefydliad ac yn gyffredinol heb gyfrifoldeb uniongyrchol am ysgolion, yn rhoi cryn annibyniaeth ac ymreolaeth i'r PAER. Felly, mae ganddo'r rhyddid i siarad, i feirniadu gwerthoedd presennol a pholisïau mewn addysg ac i gynnig sylw Cristnogol er lles pawb.

Mewn cyfnod o newid addysgiadol parhaus, cynrychiolir y PAER mewn trafodaethau cenedlaethol ynglŷn â datblygiadau cwricwlwm ac arweiniad, yn ogystal â chyfrannu i gyfarfodydd rheolaidd amlasiantaeth. Bydd y lefel yma o gynrychiolaeth, gweithio gydag adrannau'r Llywodraeth a sefydliadau eraill, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r pwyllgor.

Mae'r PAER yn ymrwymedig i sensiteiddio'r enwadau a gynrychiola drwy gynyddu'r lefelau o ddiddordeb mewn addysg. Trwy gyswllt aelodau unigol a gweisg yr enwadau, bydd yn ceisio annog yr eglwysi i gymryd eu cyfrifoldebau i ymarfer eu llais o ddifrif ac yn eu hysbysu ynglŷn â datblygiadau a phynciau.

Gwêl y pwyllgor ei hun yn cynnig cefnogaeth i Gristnogion anghydfurfiol yn y dosbarth a'r rheiny sy'n gweithredu ar fwrdd llywodraethol ysgol neu'r CYSAG lleol. Bydd unigolion yn unrhyw un o'r swyddogaethau hyn yn cael eu hannog i ddeall sut y gallant roi eu ffydd Gristnogol ar waith, heb genhadu'n amhriodol. Tasg fawr barhaus y PAER yw cryfhau cynrychiolaeth yr Eglwysi Rhyddion ar y CYSAG. Bydd yn parhau i gefnogi recriwtio, i hysbysu a rhyngweithio gyda chynrychiolwyr CYSAG yr Eglwysi Rhyddion drwy ei gylchlythyr newydd ac i gynnig, lle bo hynny'n bosib, gyfleoedd hyfforddi i aelodau. Hefyd, mae gan y PAER waith i'w wneud yn trafod yn feirniadol adnoddau dysgu a gyhoeddwyd, a lle bo'n bosibl, annog sylw eang o effaith yr Eglwysi Rhyddion ar gymdeithas ac addysg.

Os oes yna ddiffyg eglurder neu arbenigrwydd yn neges yr Eglwys Rydd, efallai bod hynny am fod yr hyn a ddywedwyd yn hanesyddol gan yr Eglwysi Rhyddion ynglŷn ag addysg wedi hidlo i mewn i'r system wladol a bellach yn cael ei gymryd yn ganiataol. Mae'r PAER yn gobeithio egluro'r neges a'r hyn sy'n hynod yn ei chylch; efallai nad yw'n bersbectif gwahanol, ond yn hytrach yn bwyslais gwahanol. Mae hyn oll yn rhan o weinidogaeth yr Eglwysi Rhyddion.

### **Mae Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion yn parhau i ystyried:**

- ei rôl fel llais i'r Eglwysi Rhyddion ar addysg;
- pa mor barod ydyw, pan fo'r angen, i fod yn 'raean yn y system';
- sut y gellir canfod gofod a chyfle i fynd i'r afael â thrafod yn feirniadol werthoedd a arddelir gan y system addysg bresennol;
- sut i gysylltu â phryderon uniongyrchol y dydd;
- sut i ddod ag addysg yn ôl ar agendâu'r Eglwysi Rhyddion.